

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 234

Pris £1

Mis Mai 2021



**Cofiwch Dydd Ewyllys Da
Mai 18fed**

Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd

2021



Mae'r Urdd yn falch o gyhoeddi, heddiw ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched, mai thema'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni yw [Cydraddoldeb i Ferched](#).

Mae sefyllfa Covid-19 wedi taflu golau ar y diffyg cydraddoldeb sydd yn dal i fodoli mewn cymdeithas, ac ar y ffaith ein bod wedi cymryd cam yn ôl mewn diffyg cydraddoldeb systematig.

Mae 75% o wleidyddion yn ddynion, 73% o bobl mewn swyddi rheoli yn ddynion, 70% o drafodwyr hinsawdd yn ddynion ac mae bron i bob trafodwr heddwch yn ddyn (UN Women, 2021).

Byddwn yn cyhoeddi'r neges, gyda fideo wedi ei chreu gyda myfyrwyr Prifysgol Abertawe ar y **18fed o Fai 2021** gan ganolbwyntio ar yr agweddau canlynol o fewn diffyg cydraddoldeb: aflonyddwch rhywiol, tlodi ynghlwm cyfleusterau mislif, stereoteipio rhywedd, a'r diffyg addysg i ferched mewn gwledydd llai datblygedig.

Rydym yn falch o gyhoeddi bod pecyn addysg yn seiliedig ar y Neges ar gael, wedi ei guradu ar y cyd gyda [Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru](#).

Galwad i weithredu

Ar y **18fed o Fai 2021** byddwn yn rhyddhau'r neges i'r byd ar ffurf fideo a gofynnwn am eich cefnogaeth.

- Ewch i'n gwefan www.urdd.cymru/heddwch er mwyn cofrestru eich diddordeb i gefnogi'r Neges ac fe wnawn eich diweddarau dros y misoedd nesaf o'r ymgyrch.

- Paratowch sut i ymateb i'r neges ar gyfer y 18fed o Fai 2021 - gall hyn fod yn llun / geiriad / gair o gefnogaeth / fideo / cân gan ddefnyddio #heddwch2021 neu ei e-bostio at heddwch@urdd.org

- Aildrydar y neges ar Twitter neu rannu ar Instagram a Facebook ar y 18fed o Fai gan ddefnyddio'r hashnod #heddwch2021

- Annog ffrindiau a chysylltiadau ar draws y byd i ymateb! Eisiau mwy o fanylion? E-bostiwch - heddwch@urdd.org

Gruffydd Parsons

Bu llawer o sôn yn ystod y misoedd diwethaf am ymroddiad a phenderfyniad y chwaraewr rygbi Ellis Jenkins sydd wedi ennill 11 cap dros ei wlad. Fe gofiwch i flaenagellwr Gleision Caerdydd a Chymru ddioddef anaf difrifol dros ddwy flynedd yn ôl. Eiliadau cyn diwedd buddugoliaeth Cymru dros Dde Affrig yn 2018 syrthiodd Ellis yn lletchwith wrth gyflawni tacla fu'n ddigon i roi terfyn ar ei chwarae am dros ddwy flynedd. Yng ngwyneb yr holl anawsterau dechreuodd chwarae unwaith eto'r flwyddyn hon a rhoi cyfrif da am ei hunan yng nghrys y Gleision.

Tynnodd un o ddarlennwyr "Cwmni" sylw'r golygydd at y ffaith fod un o wŷr ifanc ein hardal wedi chwarae rhan allweddol yn adferiad y seren rygbi yma. Bydd ein darlennwyr yn cofio Gruff Parsons a fu'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae e'n fab, wrth gwrs, i Richard a Nia Parsons a fu'n athrawon yn ysgolion Cymraeg y sir am flynyddoedd. Wedi oes yn ardal tref Caerffili mae'r ddau bellach wedi ymgartrefu ym Mhenarth. Cofiw'n hefyd am fam-gu Gruff, y diweddar Moyra Davies, yn un a ystyrir yn fam Addysg Gymraeg yr ardal.



Gruff Parsons gydag Ellis Jenkins

Wedi gadael Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, aeth Gruff ymlaen i astudio Ffisiotherapi ym Mhrifysgol Nottingham cyn mynychu Prifysgol Caerdydd i astudio MSc ym Meddygaeth Chwaraeon. Mae bellach yn byw yn Teddington gyda'i wraig Chloe a'u baban Mali Moyra.

Ers hyfforddi yn ffisiotherapydd bu'n gweithio gydag Albanwyr Llundain, Tîm Saith Pob Ochr Cymru a hefyd tîm Lloegr cyn ymuno a thîm rygbi Gleision Caerdydd yn 2018.

Dyma sydd gan Lynn Griffiths, Pennaeth Ysgol Gymraeg Caerffili i'w ddweud am Gruff: "Fel ysgol rydym yn ymfalchïo'n gyson yn llwyddiannau ein cyn-ddisgyblion. Roeddwn yn hynod falch bod Gruff wedi cael ei ddewis fel ffisio tîm rygbi 7 pob ochr Lloegr sawl blwyddyn yn ôl. Fe ddaeth Gruff yn ôl i'r

ysgol gan gyflwyno crys rygbi Lloegr sydd wedi ei arddangos ar wal "Sêr Ein Hysgol Ni!" Mae'n wir i ddweud bod Gruff yn chwaraewr talentog iawn yn ei ddyddiau fel disgybl yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Roedd yn faswr yn ein tîm, y cyntaf i ennill pencampwriaeth rygbi Sir Caerffili ac ysgolion Cymraeg Gwent. Yn sgîl hyn fe aeth i Barc y Strade ddwy waith i gystadlu yn rowndiau cenedlaethol rygbi'r Urdd!!

Ei waith gyda Gleision Caerdydd ddaeth ag e i gysylltiad ag Ellis Jenkins. Bu Gruff yn gweithio'n agos gydag Ellis yn ystod brwydr anhygoel Ellis Jenkins, nid yn unig i adennill ei ffitrwydd ond i ddychwelyd i chwarae'r gêm ar lefel uchel. Dywedodd Ellis na allai ddiolch digon i Gruff, prif ffisiotherapydd y Gleision, wrth iddynt dreulio rhan o bron pob dydd gyda'i gilydd wrth fynd drwy amryw brosesau gwellhad.

Dywed Gruff mai un o'i brofiadau mwyaf anhygoel oedd mynd draw i America gydag Ellis er mwyn iddo dderbyn triniaeth arbenigol yno. Roedd Gruff wedi tynnu sylw Ellis a'r awdurdodau at waith arbenigwr yn Philadelphia. Mae'n debyg fod yr arbenigwr, Bill Knowles, wedi gweithio gyda sêr byd enwog amryw gampau, megis Tiger Woods ac Andy Murray. Treuliodd Gruff ac Ellis wythnos draw yn yr Unol Daleithiau gyda'r arbenigwr i helpu i gynllunio'r strategaeth derfynol ar gyfer dychwelyd Ellis i faes y gad rygbi.

Mae Gruffydd, yn ddiau, wedi chwarae rhan allweddol yn hanes rygbi. Erbyn hyn, fyddai dim byd yn rhoi mwy o bleser iddo na gweld Ellis Jenkins yn gwisgo crys coch Cymru eto. Ac mae'n anodd meddwl am ddim byd mwy haeddiannol. A'i wisgo ar daith yr Haf i'r Ariannin?

gan Y Golygydd

Adennill ein hanes?

gan Dr Elin Jones

Wrth i fi ysgrifennu'r geiriau hyn rwy'n dal i ddygymod â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod rhoi unrhyw arweiniad clir ar le hanes Cymru yn ein cwricwlwm cenedlaethol newydd. Nid oedd y newyddion siomedig hyn yn annisgwyl, oherwydd roedd y Llywodraeth eisoes wedi gwrthod argymhelliad ei phwyllgor deisebau ar y mater hwn.



Dadorhcuddio cofeb Llywelyn Bren yng Ngelligaer, 2020

Mae'n siom ac yn ddadurithiad i sylweddoli cyn lleied o sylw mae aelodau'n Senedd yn talu i ddymuniadau pobl Cymru ac i'w phwyllgorau ei hun. Wedi'r cyfan, cafwyd blynyddoedd o ymgyrchu ar y mater, a hynny gan ysgolheigion cydnabyddedig ac addysgwyr profiadol yn ogystal â phobl gyffredin ledled Cymru sydd am weld parch i'w hanes yn ein hysgolion.

Diwrnodau duon i garedigion hanes Cymru felly. Ond mae rhyw lygedyn o haul i'w ganfod ar Fynydd Caerffili. Er taw methu wnaeth yr ymgyrch i godi cofeb i un o arwyr ein cwm o flaen Castell Caerdydd, yn y fan lle cafodd ei ddienyddio, y llynedd cododd Cyngor Bwrdeistref Caerffili gofeb i Llywelyn Bren yn agos at ei gartref yng Ngelligaer. Ac eleni fe fydd rhai o ysgolion ei fro yn gweithio mewn partneriaeth

gydag arlunydd ac awdur (ie, fi) i lunio llyfr amdano. Mae'r cynllun arloesol hwn hefyd wedi ei ariannu gan y Cyngor, gyda llaw.

Teitl y prosiect yw *Ein Llyfr Ein Hanes*. Y gobaith yw y bydd yn enghraifft o'r hyn y gellir ei wneud gan gymuned i ddiogelu ei hanes ei hun trwy ei rannu gyda'i phlant. Mae'n anodd iawn ar ysgolion yn y dyddiau hyn i geisio datblygu cwricwlwm newydd mewn cyfnod o bandemig a chyfyngiadau ymarferol ar weithgareddau o bob math. Chwarae teg felly i'r tair ysgol gynradd sydd wedi cytuno i gymryd rhan, sef ysgolion cynradd Greenhill, Llancaeath a Phenalltau.

Mae'n ddyddiau cynnar arnom eto, a rhaid i ni ddod o hyd i'n ffordd ein hunain at y nod. Ond gwn taw partneriaeth fydd hi, a'r plant eu hun fydd pia'r penderfyniadau terfynol ar hyd y daith. Mae'r arlunydd, Picasso Griffiths, a fi yn gweithio ar fframwaith y llyfr ar hyn o bryd, ac yn bwriadu ei gyflwyno i'r disgyblion cyn diwedd y tymor. Eu barn nhw fydd yn ein harwain wedyn. Fe fydd ein hen gyfaill Zoom (neu'r cyffelyb) hefyd yn bartner i ni ar y dechrau, mae'n debyg, ond y gobaith yw y caiff y plant gyfle nes ymlaen eleni i ymweld â rhai o'r mannau y byddai Llywelyn wedi eu troedio wyth cant o flynyddoedd yn ôl.

Ond nid un arwr yn unig a fagwyd yn y fro hon. Os ydym am sicrhau bod ein hanes yn cael sylw dyledus, rhaid sicrhau bod rhagor o gofebion tebyg yn cael eu codi. A bydd angen llyfrau hefyd i roi'r cyd-destun. Nid yw plac i ddynodi man geni rhywun cofiadwy yn ddigon ar ei ben ei hun: nid yw'n sicr y bydd pawb yn deall arwyddocâd geni'r person hwnnw. Mae cerflun, megis un David Williams ger y castell yng Nghaerffili, yn urddasol iawn, ond yn gostus hefyd. Mae'n parciau i gyd yn cynnwys byrddau gwybodaeth sy'n tynnu ein sylw at ryfeddodau byd natur: byddai'n braf i weld rhai tebyg yn tynnu sylw at ryfeddodau ein hanes.

O'r chwith i'r dde: Elin Jones, awdur y geiriau ar y panel; Phil Loveless, Swyddog Cyngor Caerffili fu'n gyfrifol am arwain y prosiect; Chris Jones-Jenkins, arlunydd a dylunydd y panel. Daw'r pren o rai o hen drawstiau Llancaeath Fawr a war-edwyd adeg adnewyddu'r plas. Daw'r placiau bach pren yn ein dwylo o'r un trawstiau, wedi eu cerfio a'u rhoi i ni i gofio'r achlysur.

Parc Pont-y-pŵl

Prynwyd y tir ar gyfer y parc ym 1677 gan Capel Hanbury, ac yna ym 1689 ychwanegwyd ato drwy brynu mwy o dir, ac ar y tir hwn adeiladwyd Tŷ'r Parc. Yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif sefydlodd ei fab John barc ceirw yno, ac ym 1703 creodd John y parc fel stad breifat. Yn wreiddiol roedd rhodfeydd o goed castan melys a ffawydd yno, ond nawr mae'n gymysgedd o bob math o goed. Mae rhai o'r coed castan melys gwreiddiol i'w gweld o hyd, yn amgylchynu Pyllau Nant-y-Gollen. Mae rhai o'r coed hyn yn bedwar cant oed, ac un ohonynt oedd coeden y flwyddyn yn 2019.

Ar un adeg, dim ond un pwll oedd Pyllau Nant-y-Gollen, a rhoddodd y pwll bŵer i efail yn is i lawr y nant. Ond nawr wrth gwrs mae dau yno, gyda phont wledig a hwyaid yn nofio arnynt. Ardal bicnic ddymunol iawn.

Yn ôl pob sôn daeth Johnny Weismuller yma ym 1932 i roi arddangosfa o nofio a phlymio. *(Fe oedd yr actor a chwaraeodd Tarzan yn y tri degau a'r pedwar degau ac roedd un o nofwyr cyflymaf y byd a enillodd 5 medal aur yn y Gemau Olympaidd.)*



*Y goeden castan melys,
400 oed*

Dylem ddechrau ar ein taith gerdded drwy'r parc wrth gathau Pont-y-moel, y fynedfa wreiddiol i dŷ'r Parc. Maen nhw'n cael eu galw'n "Gathau Sally", oherwydd iddynt gael eu cyflwyno i'r teulu Hanbury gan Sarah, Duges Marlborough, ei llysenw oedd Sally. Adeiladwyd y gathau yn y 1720au a'u hailadeiladu ym 1835.



Gathau Pont-y-moel

O'r gathau 'dyn ni'n cerdded ar hyd lôn droellog ddymunol gyda choed ar ei hyd ar y ddwy ochr. Yn fuan rydym yn cyrraedd y ganolfan hamdden. Ar y dde mae 'na ddau lwybr troed, un sy'n mynd lan heibio'r llethr sgïo i Byllau Nant-y-Gollen a'r llall i fyny'r allt i'r groto; yr unig beth am y groto ydy mai dim ond ar amserau penodol mae ar agor, ond mae'r olygfa yn wych.

Dyluniwyd y groto gan Mollie Hanbury, gwraig Richard Hanbury, ym 1780. Mae popeth y tu mewn wedi'i addurno â chregyn, dannedd ac esgyrn ceirw, defaid ac anifeiliaid eraill, a chafodd y llawr ei osod mewn patrymau gan ddefnyddio dannedd ac esgyrn anifeiliaid. Ni orffennwyd y gwaith tan 1800.

Ar ôl edmygu'r olygfa fendigedig o gronfa ddŵr Llandegfedd a'r Hafren o'r groto, gallwn barhau ar hyd y grib am tua milltir nes i ni gyrraedd y ffoledd. Adeiladwyd y tŵr ffoledd ym 1765 gan John Hanbury. Nid oedd pwrpas i'r tŵr o gwbl, ar wahân i ddangos ei fod e'n ddyn cyfoethog pwerus. Gellir gweld y tŵr am filltiroedd o gwmpas.

Does dim to na llawr gyda'r tŵr. Tŵr 40 troedfedd o uchder yw e gyda golygfeydd hyfryd o'i gwmpas. Cafodd ei ddymchwel ym 1940 oherwydd credwyd y byddai'n cael ei ddefnyddio gan awyrennau bomio'r Almaen wrth ddod o hyd i ffatri ordnans Glasgoed. Ailadeiladwyd y tŵr ym 1993. Ac ym 1994 daeth y tywysog Charles i berfformio'r seremoni agoriadol.

Ym mhen uchaf y parc mae cerrig yr orsaf a godwyd ym 1923 yn barod ar gyfer yr Eisteddfod a gynhaliwyd yn y parc ym 1924.

Awn i'n ôl i lawr nawr i'r ganolfan hamdden a pharhau ar ein taith gerdded trwy'r parc i'r amgueddfa gan basio ar ein ffordd y llwyfan band. Adeiladwyd y llwyfan band er cof am Sidney Tudor Roderick i gydnabod ei wasanaeth hir i gerddoriaeth ym Mhont-y-pŵl, a gafodd ei agor yn swyddogol ym 1931.




Y Tŵr Ffoledd

Gan adael y llwyfan band y tu ôl i ni, y lle nesaf i ymweld ag e yw'r amgueddfa. Mae'r amgueddfa wedi 'i lleoli mewn bloc stabl Sioraidd a adeiladwyd ym 1822 a daeth yn amgueddfa ym 1980. Mae'n fach ond mae'n cynnwys amrywiaeth o bethe diddorol. Mae'n gartref i arddangosfa fendigedig o Japanware y mae Pont-y-pŵl yn enwog amdano.

Datblygodd John Hanbury felin rollo a gellid rholio haearn poeth, nes yn denau ac yn llyfn. Yr unig ffordd o wneud hyn o'r blaen oedd ei guro'n fflat â llaw a nid oedd hyn yn foddhaol o gwbl. Datblygodd John Hanbury hefyd ffordd o orchuddio'r ddalen haearn gyda haen o dun sy'n gwrthsefyll rhwd, ac oherwydd y datblygiad hyn, cafodd dull "japanning" ei ddarganfod.

Darganfyddodd Thomas Allgood, un o reolwyr John Hanbury, ddeunydd oedd yn gallu cael ei ddefnyddio i orchuddio'r metel a oedd wrth ei gynhesu yn creu lacer caled llachar, ar wyneb y metel. Datblygodd ei feibion John ac Edward syniad eu tad, ac ym 1732 ehangodd Charles Hanbury y syniad a dechreuwyd y cynhyrchiad cyntaf, ar raddfa fach, o Japanware ym Mhont-y-pŵl. Yn araf daeth yn fyd-enwog.

Gyferbyn â'r amgueddfa mae'r tŷ iâ. Cai iâ ei dynnu o Byllau Nant-y-Gollen ac o gamlas Aberhonddu a'i gadw yn y tŷ iâ i'w ddefnyddio i i helpu cadw bwyd yn ffres. O fan hyn 'dyn ni'n cerdded drwy barc i'r afon Lwyd dros y bont i ochr arall yr afon lle mae'r gerddi Eidalaidd. Nawr 'dyn ni'n dilyn y llwybr i lawr wrth ochr yr afon gan basio ar y dde fynedfa i dwnnel dramffordd Pont-y-pŵl.



Y Parc a'r Ffoledd

Adeiladwyd y twnnel ym 1825 i gysylltu gwaith tun Pont-y-moel gyda pharc a ffwrnesi Osborne ym Mhontnewynydd, a pharhaodd y ffordd dram ar hyd glan yr afon sydd nawr y llwybr troed 'dyn ni'n cerdded arno. Heb fod ymhell o fynedfa'r twnnel yn yr afon gellir gweld olion llifddor agored a fyddai wedi ei ddefnyddio i reoli llif y dŵr i ffyrnau ymhellach i lawr yr afon. Yn fuan ar ôl hyn 'dyn ni'n cyrraedd y maes parcio, mynd dros bont afon arall ac yn cyrraedd yn nôl i'r ganolfan hamdden.



Pyllau Nant-y-Gollen

Felly, y gallwch weld nid yn unig fod parc Pont-y-pŵl yn le dymunol iawn i gerdded ynddo, mae'n llawn o hanes hefyd.

Ond wrth gwrs 'dyn ni ddim yn gallu gadael y parc heb sôn am un o'r timau rygbi enwocaf yng Nghymru, sef Pont-y-pŵl. Wedi'i anfarwoli gan gân Max Boyce am reng flaen Pont-y-pŵl: "*Up and under here we go*".

Yn wreiddiol dim ond nifer fach o dai yr ochr arall i'r afon o'r parc oedd Pont-y-pŵl, oherwydd bod yr Hanburys yn cadw'r holl dir gorau i ddatblygu eu parc.

Mae 'na nifer o storïau am sut cafodd Pont-y-pŵl ei enw. Mae un ohonynt am ddyn cryf iawn o'r enw Dafydd ap Howell oedd yn moyn codi pont dros yr afon Lwyd ond roedd y Diafol yn moyn codi'r bont hefyd. Felly penderfynon nhw gwrdd a chydio yn nwylo ei gilydd ar draws yr afon a chwarae gêm o "*tug of war*" a byddai'r enillydd yn codi'r bont. Ac wrth gwrs enillodd Dafydd, felly enw'r bont oedd Pont ap Howell a gafodd ei lygru i Bont-y-pŵl.

Malcolm David

Sŵt ma'r ardd yn edryck?

Dyna oedd y cwestiwn fyddai 'nhad yn gofyn i'w dad yntau ar ein hymweliadau wythnosol draw i weld Tad-cu a Mam-gu Maesteg pan oeddwn yn blentyn. Des i ddeall yn y pen draw taw côd oedd hwn am "Beth am i ni fynd allan i gael mwgyn?". Serch hynny, roedd 'nhad-cu yn arddwr o fri, a byddwn i'n mwynhau crwydro'r ardd fawr oedd ganddo tu ôl i'r tŷ, a chael fy newis o'r llysiau, blodau a ffrwythau a dyfai yno.

Ond ni chefais i unrhyw flas ar arddio fy hun nes i fi ddychwelyd i Ystrad Mynach i fyw yn 2009 – efallai oherwydd dwi byth wedi gweld lot o bwrpas mewn lawnt, am fod cymaint o waith caled a di-ddiolch wrtho – rhy debyg i waith tŷ!



Wedi i fi sefydlu yma, penderfynais y byddwn yn ceisio datblygu gardd lysiau: o leiaf cewch fwyta ffrwyth eich llafur. Er bod croeso bob amser i bys pêr yn fy ngardd, nid oes llawer o olwg gen i ar flodau eraill - yn yr ardd ei hun, beth bynnag. Mae lilis a rhosod yn edrych yn bert mewn potiau, ond yn llyncu tir da yn yr ardd. Wedi'r cyfan does dim llawer o dir gen i i'w sbario - darn o bridd 9 metr sgwâr sydd gen i yng nghefn y tŷ, a dwy goeden camellia yn cymryd un gornel helaeth o hwnnw.

Pan symudais yma'n gyntaf, roedd mwy o fflwcs adeiladwyr yn y sgwaryn bach nag o bridd da, ond rwy wedi bod wrthi'n gwrteithio a phalu, palu a gwrteithio nes ei fod yn edrych yn debycach i bridd erbyn hyn. Ac rwy wedi cael hwyl ar y llysiau hefyd, er y bu'n rhaid i fi ddysgu pa rai sy'n hoffi eu lle. Mae wedi profi'n amhosibl i fi dyfu ffa dringo ("cidna bêns") yma oherwydd does

dim dyfnder pridd eto i gynnal y polion. Er gwaethaf ymdrechion glew ambell i ffrind cydnerth i osod polion rwy wedi gorfod bodloni ar ffa Ffrengig, sydd ddim cweit cystal eu blas - yn fy marn i, beth bynnag. Ond mae ffa eu hun (sef *broad beans*) yn tyfu'n hapus iawn gyda fi, a chefais ddau gnwd ohonynt mewn un tymor unwaith! Wedi i fi dorri coesau'r planhigion ar ôl y cnwd cyntaf, aethant ati i aildyfu ac ailflodeuo – a datblygu cnwd da eto ym mis Hydref. Dyw hynny byth wedi digwydd wedyn, ond mae'n atgof melys iawn o hyd.

Felly sut mae 'ngardd yn edrych erbyn hyn? Wel, fel y gwelwch, golwg drist diwedd y gaeaf sydd arni. Cwpl o gennin yn sefyll o hyd, i dystio eu bod hwythau hefyd yn hapus yma. Cwpl o botiau dan y camellia, yn tystio i arbrofion aflwyddiannus y llynedd. Rhos o gabaets sydd heb newid llawer ers iddynt gael eu plannu allan hydref diwethaf. Yr hyn sy'n weddill o'r *Swiss chard* wedi i'r malwod wleda arno, digon o chwyn - a thusw llewyrchus iawn o laswellt. A dyna ni ym mis Mawrth. Beth fyddai 'nhad-cu yn ei ddweud?!

Ond mae haul y gwanwyn yn ein denu i'r ardd nawr, a gobeithio rhoi tipyn o drefn ar bethau erbyn y mis nesaf. Cewch weld!

Dr Elin Jones

Mae'r erthygl yma i gyd fynd â'r gyfres boblogaidd o ryseitiau lleol, ein pleser yw lansio cyfres o erthyglau tebyg ar arddio.

Hen Dref Fy Nhadau a Mamau

Rhan 3 – O Orllewin Cymru i Gymoedd Y De

Cipolwg ar rai bywydau cyffredin yn ystod ail hanner y 19eg ganrif

Ryw bryd cyn cyfrifiad 1871, cyrhaeddodd dyn ifanc sengl yn ei ugeiniau, o'r enw James Mitchell, ardal Caerffili, ble daeth o hyd i waith fel glöwr a llety yng Ngenau'r-glyn gyda groser o'r enw Mrs Ann Harris. Roedd pwll glo cyntaf Enau'r-glyn wedi dechrau ym 1858, felly mae'n bosibl taw dyna le buodd James yn gweithio. Ond doedd James ddim yn hollol heb gydnabod yn ei gartref newydd oherwydd lawr yr heol yn nhref Caerffili roedd dau o'i frodyr hyn yn byw; roedd Edward, yr hynaf o'r teulu, yn byw gyda'r ail frawd, David, gwraig David, Ann, a'u merch ddyflwydd oed, Mary Ann. Roedd Edward a David yn lowyr fel eu brawd iau ac roedd Edward yn ŵr gweddwr, wedi colli ei wraig, Ann, bedair blynedd ynghynt. Claddwyd Ann ynghyd â merch fach 21 mis oed, Elizabeth Ann, ym mynwent Machen Isaf. Roedd merch fach arall Edward, Cecilia Ann, chwech oed, yn byw ym Machen gyda'i mam-gu a'i thad-cu (oedd yn warden coed), William a Cecilia Jones. Y pwll agosaf i Edward a David oedd Gwaith Glo Rhos Llantwit oedd wedi dechrau ar dir Fferm Porset ym 1863. Mae ystâd Parc Lansbury yn sefyll ar y safle heddiw ac mae rhai olion o adeiladau'r gwaith glo i'w gweld o hyd. Roedd John, brawd arall James, yn byw yng Nghwmdâr, ble roedd sawl pwll glo dwfn a rhesi o dai teras wedi'u codi'n unswydd i deuluoedd y glowyr oedd yn symud mewn i'r ardal ers y 1850au. Roedd gan John wraig o'r enw Sarah a merch fach ddyflwydd oed, Elizabeth Ann arall.

Ganwyd a magwyd y pedwar brawd Mitchell yn Llanboidy yn Sir Gâr. Eu mam oedd Elizabeth, gwraig gyntaf Henry Mitchell oedd yn ffariar ac, yn ddiweddarach, yn dafarnwr. Tad Elizabeth oedd John Evans, gŵr gweddwr gyda fferm o 22 erw yn Llanboidy. Yn ogystal â'r brodyr, roedd chwaer ganddynt o'r enw Ann. Yn eu harddegau, dechreuodd y brodyr weithio ar wahanol ffermydd yn yr ardal ond ryw bryd rhwng 1861 ac 1871, a'r chwyldro diwydiannol yn ei anterth, penderfynon nhw symud i gymoedd y de. Arhosodd eu chwaer Ann



*Elizabeth Jane (Lizzie), 1874-1912,
merch James ac Ann Mitchell*

yng Ngorllewin Cymru a gweithio fel morwyn ar fferm William Morse yn Llanfyrnach, Sir Benfro. Roedd Elizabeth, eu mam, wedi marw pan oedd James yn saith oed ac Ann yn naw, ac ymhen dwy flynedd priododd Henry â'i ail wraig, Lois Jenkins, a chael dwy ferch arall, Amelia ac Emma a anwyd yn Nhalacharn. Ym 1871, pan oedd y brodyr i gyd yng nghymoedd y de yn gweithio yn y pyllau glo, roedd Henry yn rhedeg tafarn Yr Hen Geffyl Du yn Sanclêr. Roedd Emma, 10 oed, gartref gyda'i rhieni, tra bod Amelia, 16 oed, yn forwyn yn Llanddowror, ryw ddwy filltir i ffwrdd.

Annibynwyr oedd y teulu Mitchell o Lanboidy (bedyddiwyd David yng nghapel Hebron), felly petai'r brodyr eisiau mynd i gapel yng Nghaerffili mae'n debyg taw i Gapel Bethel, oedd yn Heol y Castell ar y pryd, fydden nhw'n mynd. Ac efallai mai dyna ble cwrddodd James â merch o'r enw Ann Stradling. Annibynwyr oedd teulu Ann hefyd, ers i'w thad-cu a'i mam-gu, y gwneuthurwr gwlanen William Stradling a'i wraig Elizabeth, fynd yn aelodau yng nghapel y Groeswen. Ta p'un i, priododd James ac Ann a chael wyth o blant, a sgrifennwyd eu henwau ym Meibl y teulu: Annie, Elizabeth, Elizabeth Jane, William, Margaret Mary, Maudelina, Emily a May Gwen. Collodd James ac Ann eu hail blentyn Elizabeth pan oedd hi 'n ddim ond dwy a hanner oed, ac roedd tristwch pellach pan fu farw Maudelina (yn 7 a hanner oed) a May Gwen (yn 7 mis oed) o golera yn Hydref 1890. Parhaodd James i weithio fel glöwr, ac ar un

adeig gweithiodd mewn chwarel hefyd. Ond yn ddiweddarach trodd ei gefn ar y gwaith caled corfforol a mynd yn bobydd a buodd James ac Ann yn rhedeg busnes pobi o'u tŷ yn Heol Tonyfelin.

Ond beth am weddill y brodyr Mitchell? Mae hanes David a'i deulu'n ofnadwy o drist. Fe oedd yr unig un o'r brodyr i barhau i weithio fel glöwr gydol ei oes ac erbyn 1901 roedd e'n ŵr gweddw'n byw ar ei ben ei hunan mewn llety ym Mhontypridd. Yn raddol dros y blynnyddoedd roedd e wedi colli ei wraig a'i blant i gyd; ei ferched Margaret (yn 10 oed) a Mary Ann (yn 19 oed), wedyn ei wraig Ann (yn 53 oed) ac yn olaf, ei fab George (yn 21 oed). Llwyddodd Edward a John i roi'r gorau i waith lawr y pwll, fel eu brawd iau, James. Ailbriododd Edward, brawd hynaf James a mynd yn groser. Cafodd ddwy ferch arall, Margaret Mary a Louisa, gyda'i wraig Margaret. Newidiodd bywyd John yn sylweddol; ar ôl iddo golli ei wraig gyntaf, Sarah, ailbriododd â gweddw o'r enw Mary Humphries ac "etifeddu" llond tŷ o lysblant yn ogystal â chael babi bach newydd, Edith. Buodd y teulu'n byw ym Mhontmorlais a buodd John yn gweithio fel brethynnwr.

A beth am y chwiorydd a arhosodd yn ôl yng Ngorllewin Cymru? Priododd Amelia ddyn o'r Mwmbwls, John Bevan a weithiodd yn y diwydiant dur, a buodd yn byw gyda fe a chwech o blant yn Abertawe. Cwrddodd ei chwaer Emma ddyn o Gernyw, Richard Charles Barnicoat oedd yn gweithio yn y diwydiant tun. Cafodd Emma a'i gŵr bump o blant a ryw bryd cyn 1901 ymfudon nhw i Pennsylvania, ble ganwyd merch arall. Buodd hanner chwaer Amelia ac Emma, Ann, yn gweithio am ddegawdau fel morwyn ar ffermydd yn Sir Benfro a Sir Gâr ac erbyn 1891 roedd hi'n byw ac yn gweithio ar fferm John Palmer yn Llanwinio. Roedd John yn ddyn sengl, fel ei frawd William, oedd yn arwerthwr ac yn byw ar y fferm hefyd. Does dim golwg o Ann Mitchell ar gyfrifiad 1901 ond roedd menyw o'r enw Annie Palmer yn byw ar y fferm gyda'r ddau frawd. Roedd Ann, yn 51 oed, wedi priodi'r ffermwr John Palmer yn 1892 a buodd yn byw ar y fferm gyda fe a'i frawd (yn hapus, gobeithio) am weddill ei hoes.

Jan Penney

Tribannau a Phenillion Eraill

Pan oedd Tom Matthews yn athro yn Ysgol Pengam cyn y Rhyfel Byd Cyntaf trefnodd i nifer o'u ddisgyblion i fynd ati i gasglu penillion gwerin. Cyhoeddwyd y rhain mewn dwy gyfrol, 'Llên Gwerin Blaenau Rhymni' a 'Dail y Gwanwyn'. Cofier fod y bechgyn a ddysgai Tom Matthews yn hanu o bob rhan o Gymru ac felly ychydig o'r penillion sydd am ein hardal. Dyma ddau bennill o'r casgliad

Blewyn glas ar ddolau Rhymni
Dynnodd lawer buwch i foddï;
Merch fach lân a'm tynnodd innau
Lawer noswaith dros fy 'sgidiau.

Y mae tri pheth ryfedd yn Nhir-phil:
Mari'n gwisgo llodrau dril,
A Gwenni'n ymârth heb ddim blawd,
A Siôn yn tosturio dros y tlawd.

Y BACHGEN BACH O DOWLAIS

Ma'r bachgen bach o Dowlais
Yn gwitho o flâ tân,
Yn bron a torri galon,
Ar ôl y ferch fach lân

A'i goese fel y pibê
A'i freichie fel y brwyn,
A'i wyneb fel pwtaten,
A hanner llath o drwyn.

Penillion Eraill,

Mae brân a chi a chawci
l'w cael yn nhref Caerffili
A thŵr fu'n syndod llawer o's
Mor gam â cho's Wil Dwmi.
Jenkin Howell, Aberdâr

Os nad oes *rum* yn Rhymni,
Mae llawnder yn y Llwyni,
A thafarn Cerdin yn y fan,
Ond fod e'n wan gan Shiani.
*Martin Phillips, The Folklore of the Afan
and Margam District (1933)*

Cafodd ein darllenwyr f wynhad mawr o ddarllen limrigau a thribannau yn rhifynau diweddar y papur. Beth, felly, am i chi ddarllenwyr yrru rhai o'ch hoff ddarnau chi at y golygydd i ni gael eu cyhoeddi yn y rhifynnau sydd eto i ddod.

gan Y Golygydd

CYFARFOD BLYNYDDOL



Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Merched y Wawr a hynny dros Zoom, wrth gwrs. Rhyfedd yw cofio CCB y gangen y llynedd. Dyna le roedden ni ym mis Ionawr yn gwledda ar de prynhawn moethus Plas Llancaeath, yn mwynhau cwmni'n gilydd o gwmpas y ford, ac wrthi'n trafod syniadau gwych yr aelodau am weithgareddau'r misoedd i ddod.



Ac yna newidiodd y byd. Cwmwl bychan ar y gorwel yn Tseina oedd Coronafeirws ym mis Ionawr 2020: erbyn mis Mawrth roedd yn gaddug tew o ofn ac ansicrwydd o'n cwmplas i gyd, a phawb – gan gynnwys ein llywodraeth – yn gorfod ymbalfalu trwyddo.

O ganlyniad aeth cynlluniau'r gangen yn ffradach dros nos. Llwyddon ni gynnal sioe ffasiwn elusennol lwyddiannus iawn ar 12 Chwefror – ond nid y sesiwn bowlïo

deg oedd i ddigwydd y mis canlynol. Diflannodd sgysiau difyr ac ymweliadau amrywiol yr haf i gyd i'r niwl.

Mawr oedd pryder eich pwyllgor. A fyddai modd cynnal y gangen a'i gweithgareddau o dan yr amodau newydd? Ac yn bwysicach fyth – beth am y cyfeillgarwch a'r gefnogaeth, calon ein holl weithgareddau?

Ond yn fuan iawn sylweddol ni ddoethineb geiriau'n Trysorydd: "Yn ddigidol – yn ddiogel". Gyda chymorth Jén Dafis, ein Swyddog Rhanbarth, a Bethan Ollerton-Jones o'r Fenter dechreuson ni fentro i fydd digidol newydd. A gwnaethon ni ffrind newydd – **ZOOM!**



Fel ambell ffrind cig a gwaed, mae Zoom yn gallu bod yn anwadal. Mae'n cefnu arnom yn annisgwyl ar adegau, ac yn sicr nid yw pawb yn cymryd ato. Serch hynny, bu'n gyfrwng i ni sgwsio a gweld wynebâu'n gilydd (ac edmygu ambell i gegin neu rŵm ffrynt anghyfarwydd hefyd).



Diolch i'n ffrind newydd, cawson ni gyfres o gyfarfodydd amrywiol fel cangen, a chyfle hefyd i ymuno yn nigwyddiadau canghennau eraill y Rhanbarth, heb sôn am y digwyddiadau a'r cyrsiau difyr a drefnwyd gan y Rhanbarth ei hun a chan y Mudiad yn genedlaethol hefyd.

Pwy fyddai wedi meddwl yr adeg hon y llynedd y bydden ni erbyn hyn wedi cael cwmni Bethan Gwanas a Mererid Hopwood ar ein haelwydydd? Neu wedi cymryd rhan mewn

cyrsiau crefft dan hyfforddiant rhai o'r prif arbenigwyr yn eu meysydd?

Buon ni hefyd yn cwrdd â'n gilydd dros Zoom i sgwsio'n hamddenol, weithiau i drafod testun penodol ac weithiau jyst i gael gwd clonc. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle amhrisiadwy i gadw'n cyfeillgarwch yn fyw, i rannu newyddion da a drwg, a theimlo'n rhan o gylch o ffrindiau.

Ac mae ffrind newydd arall gennym sy'n gyfrwng pŵerus i'n cadw mewn cysylltiad cyson â'n gilydd. Sefydlwyd ein grŵp WhatsApp ar ddechrau cyfnod clo cyntaf oll – a hynny gan Gwyneth Davies, un o aelodau'r gangen ei hun. Nawr mae sawl gwahanol griw ohonom yn rhannu newyddion, straeon difyr, lluniau'r plantos (ac ambell i jôc hefyd) trwy gyfrwng y cyfrwng newydd hwn. Diolch Gwyneth!



Jenni Jones Annetts

Dinca Fala

Pwdin Reis

Pethau syml iawn a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o'n ryseitiau traddodiadol, a does dim byd sy'n llawer symlach na chynhwysion pwdin reis. Dyna'r rheswm pam roedd yn gymaint o ffefryn 'slawer dydd, rwy'n siwr – hynny a'r ffaith y gellid ei roi yn y ffwrn wrth ochr y tân yn y *range* hen ffasiwn a'i adael yno am oriau heb lawer o niwed. Felly, roedd yn dipyn o sioc i fi gael ar ddeall gan ffrindiau eu bod yn prynu pwdin reis oherwydd doedden nhw ddim yn gwybod sut i fynd ati i'w wneud.

Ond pan es i at lyfrau i chwilio am rysait am bwdin reis, ces i dipyn o syndod wedyn i weld mor gymhleth oedd rhai o'r ryseitiau, a mor annisgwyl oedd rhai o'r cynhwysion. Deilen lawryf? Hadau cardamom? Doedden nhw ddim yn gwerthu rheiny yn y siop gornel 'slawer dydd!

Ond mae'n bur debyg bod gan bob teulu ei rysait ei hun am bwdin mor boblogaidd. Dyma'r rysait a ddysgais i gan fy mam 'slawer dydd. Roedd ei chyfarwyddiadau mor syml â'r cynhwysion, sef:

Irwydd ddysgl pwdin yn dda gyda menynd, a rhowch ynddi:

Llond llwy fwrdd o reis

Llond llwy bwdin o siwgr

Peint o laeth

Digon o nytmeg (at eich dant, ond gan gofio effaith rhithweledigaethol (*hallucinogenic*) hwnnw).




Cymysgwch y cyfan yn dda, ac ychwanegwch ychydig o ddarnau o fenyn iddo. Gallwch ychwanegu rhesin hefyd os mynnwch, ond nid yw pawb yn eu hoffi.

Rhowch y ddysgl yn y ffwrn ar wres isel (nwy 1; trydan 140 C). Cadwch lygad arno yn ystod yr awr gyntaf, gan ei droi yn weddol gyson (tair neu bedair gwaith) i wneud yn siwr bod y reis yn cael ei gymysgu'n dda. Bydd croen yn ffurfio ar yr wyneb, ac mae cymysgu hwnnw gyda'r reis yn gwella ansawdd y pwdin. Bydd angen awr arall arno, ond does dim angen gwneud dim iddo yn ystod yr awr honno os ydych yn hoff'r "crofan" (sef "crawen" mewn iaith safonol). Daliwch ati i'w gymysgu i'r pwdin os nag ydych yn ei hoffi.

Cofiwch ei fod yn anodd i fratu (= "difetha") y pwdin hwn. Mae e'n dod yn fwy trwchus wrth iddo bob i, ac yn y pendraw fe fydd yn troi'n fath ar deisen reis. Dyna fel oedd glowyr yn ei fwyta 'slawer dydd: ei droi allan wedyn yn un darn a'i dorri fel teisen. Yna byddent yn mynd â hantsh o bwdin reis gyda nhw yn eu tun bwyd.

Felly, os am flas o fwyd y glowyr gynt: mynnwch gwllffyn o fara, darn o gaws Caerffili a hantsh o bwdin reis. Ac i'w yfed? Wel, te oer o'r jac, wrth gwrs!

Colofn Dafydd Islwyn



Cynhaliwyd Ysgol Haf gyntaf Plaid Cymru ym Machynlleth yn 1926. Ynddi y traddododd Saunders Lewis ei ddarlith 'Egwyddorion Cenedlaetholdeb', hi oedd y bamffled gyntaf a gyhoeddwyd gan y Blaid, un prin iawn erbyn heddiw. Cyhoeddwyd ail argraffiad ohoni yn 1975 gyda chyfieithiad Saesneg. Yn ôl J. E. Jones (1905-70), Ysgrifennydd a Threfnydd Plaid Cymru 1930 i 1962, yn ei lyfr "Tros Gymru, J. E. a'r Blaid", gyhoeddwyd ym mis Ebrill 1970, ryw fis cyn iddo farw, ryw chwe deg person oedd yn bresennol yn yr Ysgol Haf gyntaf. Ynddi ymunodd nifer o bobol â Phlaid Cymru, yn eu mysg Cassie Davies, Tregaron; Waldo Williams; Idwal Jones, Llanbedr Pont Steffan - awdur y gân ysgafn boblogaidd "Mae'r Nadolig yn Nesáu"; Gwenallt a Kate Roberts. Yr aelod hynaf yn bresennol oedd Lewis Williams, Nelson.

Am lawer o flynyddoedd ar ôl ei sefydlu bu Lewis Williams ac aelod arall, y Fonesig Mallt Williams yn noddwyr i Blaid Cymru "..... noddwr oedd Lewis Williams, Ton Teiliwr, Nelson ger Caerffili. Yn ei henaint (fe'i ganwyd yn 1850) deuai i'r Ysgol Haf a chyfarfodydd eraill am lawer o flynyddoedd. Bu yntau'n gyson ei haelioni a'i nawdd i weithgareddau'r rhai ifanc a lywiau'r Blaid. Yn nes ymlaen, yn 1932, gwnaed y Fonesig Mallt Williams a Lewis Williams yn Is-lywyddion anrhydeddus y Blaid," yn ôl J. E. Jones.

"Byddai Lewis Williams yn dyfod a'i ddau gyfaill i bob Ysgol Haf a dywedid mai ef oedd yn talu drostynt," meddai Kate Roberts yn Rhagfyr 1970. Un o'r cyfeillion oedd Dafydd Jones. Ni fyddai ef na'r cyfaill arall yn dweud dim gair yng ngweithgareddau'r Ysgol Haf ond byddai Lewis Williams. "Pan beidiodd ef a mynychu'r Ysgol Haf," ychwanegodd Kate Roberts, "ni welwyd mo'r ddau arall wedyn. Nid wyf yn credu eu bod lawer o genedlaetholwyr ond eu bod yn cael gŵyl ar draul L. W."

"Teip da oedd Lewis Williams a Dafydd Jones - hen deip na cheir mo'i debyg eto, wy'n ofni," tystiodd Cassie Davies. Tachwedd 1970 "Roedd Lewis Williams yn nodedig o hael - fe roddodd Tŷ'r Gymru i ieuenctid Caerdydd."

Ceir cyfeiriad yn y gyfrol at aelodau cynnar Plaid Cymru a chysylltiad â'n hardal. Bu Ieuan Jeffreys-Jones (1909-67), Ystrad Mynach, yn weithgar yng Nghaerdydd. Cyd-aelod ag ef oedd Miss Huna Rees a fu'n athrawes yn Rhymni. Priododd â T. J. Morgan a bu iddynt ddau fab, Prys yr hanesydd a Rhodri y gwleidydd. Aelod alltud yn y blynyddoedd dan sylw oedd H. P. Richards, ar y pryd yn byw yn Nofr (*Dover*). Yn Nhachwedd 1941 sefydlwyd cangen Plaid Cymru yng Nghaerffili ac oedd ef yn un o'i swyddogion. Y ddwy arall oedd Mrs Bryn John a Miss L. M. Roberts, ffrind agos i R. Williams Parry. Yn Haf 1944 cynhaliwyd Ysgol Haf y Blaid yng Nghaerffili. "Yr oedd yno Sgotiaid gyda ni ac un yn annerch; a hefyd Sais, Wilfred Wellok, gŵr gyda'r un delfrydau ar gyfer Lloegr ag a oedd gennym ninnau ar gyfer Cymru." Cofnododd J. E. Jones.

Nid pawb â chysylltiad â Chwm Rhymni oedd yn cytuno â delfrydau Plaid Cymru fel y Sais uchod yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Brawddeg dristaf J. E. Jones yn y gyfrol ydy hon: "Fe fu ambell unigolyn yn ffyrnig ac atgas tuag atom". Ychwanegodd yr awdur: "A gwnaeth llywodraeth Lloegr trwy'r Dr Thomas Jones a'r Parchedig Gwilym Davies eu heithaf i feithrin ysbyrd atgas yn y cyhoedd tuag atom a thrwy'r hen, hen ddull o'n galw ar enwau butraf y dydd, sef mai Natsïaid a Ffasgiaid oeddem."

Mewn sgwrs radio, un ar ddydd Gŵyl Ddewi 1941, a'r llall flwyddyn yn ddiweddarach, bu Dr Thomas Jones (1870-1955), y brodor o Rymni a fu'n was sifil dylanwadol yn Whitehall rhwng 1916 ac 1930, yn ffiaidd ei gyhuaddiadau yn erbyn y Blaid. Yn y Traethodydd, Gorffennaf 1942, cyhoeddwyd erthygl gan y Parchedig Gwilym Davies M.A. (1879-1955); brodor o Fedlinog, sylfaenydd Neges Heddwch Plant Cymru a hyrwyddwr dealltwriaeth ryngwladol oedd ef. Teitl ei erthygl oedd, "Cymru gyfan a'r Blaid Genedlaethol Gymraeg". Ynddi cyhuddodd y Blaid o geisio sefydlu yng Nghymru wlad annibynnol, dotalitaraidd, ffasgaidd a phabyddol."

O lygad y ffynnon cafodd J. E. Jones wybod i Gwilym Davies ysgrifennu'r erthygl ar gais Dr Thomas Jones! Roedd ef yn gweithredu ar ran un o wŷr blaenllaw'r llywodraeth. Cyhoeddodd Plaid Cymru bamffledyn, "Plaid Cymru Gyfan - Atebion Saunders Lewis a J. E. Daniel i Mr Gwilym Davies." Dwy frawddeg olaf ateb J. E. Daniel (1902-62), llywydd y Blaid ar y pryd, oedd: nad oes le i "*Führerprinzip*" yn ei holl gyfansoddiad. "Yn ail, o astudio erthygl Mr Davies yn fanwl, fe welir nad oes o'i mewn unrhyw undod ond awydd dinistrio'r Blaid Genedlaethol."

Mae llawer o bobl yn dweud taw mis Mai yw dechrau'r haf. Mae'r tywydd yn braf (gobeithio!) a nawr rydyn ni'n gallu teithio ar ôl y Cyfnod Cloi. Felly, mae llawer o bobl yn meddwl am fynd i lan y môr.

Traeth y Pigyn yw un o gerddi mwyaf poblogaidd T Llew Jones ac mae'r traeth yma ar arfordir Ceredigion yn agos i Langrannog. Yn y gerdd mae plentyn yn gwahodd ffrind i fynd i'r traeth ac yn disgrifio beth fyddan nhw'n ei weld a'i wneud yno. Mae'r gerdd yn llawn cyffro a'r plentyn yn edrych ymlaen yn fawr at fynd i'r traeth. Ydych chi wedi bod ar lan y môr eleni? Fwynheuo chi?


Traeth y Pigyn

gan T. Llew Jones

Ddoi di gen i i Draeth y Pigyn
Lle mae'r môr yn bwrw'i ewyn?
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?
Ddoi di ddim?

Ddoi di i godi castell tywod
A rhoi cregyn am ei waelod?
Ddoi di gen i? Ddoi di --?
Ddoi di ddim?

Fe gawn yno wyllo'r llongau
A chawn redeg ras â'r tonnau,
Ddoi di gen i? `
Ddoi di ddim?



O mae'n braf ar Draeth y Pigyn
Lle mae'r môr yn bwrw'i ewyn?
Pan fo'r awel yn y creigiau,
Pan fo'r haul ar las y tonnau.

Tyrd gen i i Draeth y Pigyn
Fe gawn wyliau hapus wedyn.
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?
Gwn y doi!

cyfnod cloi : lockdown	arfordir : coast	gwahodd : invite	llawn cyffro : full of excitement
edrych ymlaen : to look forward	bwrw'i ewyn : casting spray	Ddoi di ddim? : Won't you come?	cregyn : shells
tonnau : waves	awel : breeze	tyrd ; come	gwn y doi! : I know you'll come!

Y Llythyr

gan Gareth Wyn Williams

Doedd Godfrey heb fod yn y ffors yn hir iawn: newydd basio ei gwrs ddechrau haf 1969. Mab i deulu oedd yn berchnogion chwarel tua ochrau Corwen oedd o. Doedd ganddo fo ddim rhyw awydd mawr i fynd i mewn i'r busnes, ac roedd hynny'n ddigon cyfleus i'r teulu, gan nad oedd lle nag elw i warantu tri mab yn gweithio yn y chwarel. Felly yn cadw gwyliadwriaeth nos yn swyddfa heddlu y Rhyl yr oedd, o dan adain Sarjant Oliver Roberts ar noson dawel wlyb ym mis Awst. Un o barthau Coed Poeth oedd y sarjant: un yn edrych fel 'tai o wedi bod yn blismon ers dyddiau Crippen. 'Built for comfort, not speed,' oedd ei ddisgrifiad o'i gorpws helaeth ac aros wrth ddesg swyddfa'r heddlu fyddai tan iddo allu ymddeol mewn rhyw flwyddyn. Ni fynnai droelli rownd y strydoedd bellach.

Yn y chwedegau, doedd y 'pyntars', fel y galwai'r sarjant yr ymwelwyr, heb glywed eto am Torremolinos a Benidorm ac roedd danteithion glan môr y Rhyl yn ddigon o atyniad, er nad oedd sicrwydd o haul. Gallai pethau fod yn eithaf diddorol i fois y ffors ar benwythnosau gan fod haul a boliaid iawn i gwrw yn gymysgedd go ffrwydrol i ambell ymwelydd a rhaid fyddai cynnig llety anghyfforddus i'r dihiryn yn y celloedd cyn ei daflu allan i'r wawr tua chwech y bore. Doedd dim brecwast yn y fargen! Y sôn oedd bod graddfa troseddu y Rhyl yn uwch na Lerpwl ond mewnforio troseddwy'r wnaî y Rhyl; doedden nhw ddim yn rai cynhenid fel arfer ac roedd yr ystadegau braidd yn gamarweiniol.

Erbyn dau o'r gloch ar fore Mercher roedd y drwg a'r da wedi hen fynd i'w gwelyau a bois y shift hwyrol wedi mynd am adref ers tro. Roedd y tafarnau yn cau am hanner awr wedi deg wedi'r cwbl a doedd clybiau ddim ond ar agor ar nos Wener a nos Sadwrn. Dim ond Sarjant Roberts a Godfrey oedd ar ôl i warchod y dref rhag drwg. Roedd y ddau ddrwgweithredwr meddwol yn y celloedd yn chwyrnu'n braf. Roedd dau heddwes mewn car yn rhywle ond bydden nhw yn y swyddfa yn chwilio am baned tua pedwar y bore.

'W ti am fynd am dro washi?' holodd y sarjant i Godfrey oedd yn setlo wrth y bwrdd i ddarllen ei bapur. 'Ond Sarj, mae hi'n bwrw,' meddai Godfrey braidd yn gwynfanllyd.

'Yli, ti'n gweld nene?' meddai'r sarjant gan bwyntio at y dair streipen ar lawes ei siaced. 'Gei di rai o nene un dwrnod, ond am rŵan, ti'n gwneud be ma'r streips yn ddeud wrthot ti am neud. Dallt?'

'Ydw, Sarj,' meddai Godfrey yn wylaidd a chodi. Rhoddodd ei glogyn glaw am ei ysgwyddau a'i helmed am ei ben.

'Cofia, crime never sleeps,' ychwanegodd y sarjant. 'Mi wnaî baned o goco i ti pan ddoi di yn ôl,' meddai wedyn yn goeglyd.

'Diolch Sarj,' meddai Godfrey â chrechwen wrth adael. 'Rhywle sbesial chi am i mi fynd?'

'Jest rownd,' meddai'r sarjant ar ei ôl.

Rownd aeth Godfrey, ar hyd y stryd fawr gan wirio sicrwydd cloeau'r siopau ar ei ffordd, wedyn i lawr am y stesion ac yn ôl i gyfeiriad y prom ar hyd stryd Bodfor. Roedd pobman yn dawel fel y bedd. Roedd y glaw wedi ysgafnhau rhywfaint a theimlai braidd yn chwyslyd dan y clogyn ar noson mor fwyn. Aeth heibio i dafarn y Bee a'r siop bapur newydd drws nesaf. Roedd y drysau yng nghlo bob un. Fflachiodd ei dorch yma ac acw dros y ffenestri ac i mewn i ambell siop. Fel y bedd. Aeth ar draws y groesffordd ac ymlaen heibio'r Imperial ac heibio i'r Tŷ Coffi newydd. Roedd goleuadau'r stryd yn disgleirio o'r gwlybanaeth ar y palmentydd. Yn sydyn, ar ochr arall y stryd ger wal rhwng dwy siop gwelodd rhwun yn sefyll mewn man oedd mewn rhywfaint o gysgod. Roedd yn gwneud rhyw ystum fel petai'n ceisio gwrthio rhywbeth i'r wal.

'Oi!' meddai Godfrey a fflachio ei dorch i gyfeiriad y person. Gallai weld mai wal frics blaen oedd o flaen y ffigwr. Dyn ydoedd mewn côt hir ddu a het a chantel go sylweddol iddi. 'Sgiws me,' meddai Godfrey eto o ochr arall y stryd ond ni throdd y dyn i arddangos ei wyneb. Nid ymatebodd i gyfarchiad y plismon chwaith. Sbeciodd Godfrey allan i'r glaw unwaith eto, rhag ofn. Ni welai neb. Trodd yn ôl at ddrws y siop. Ysgydwodd y ddolen ond roedd y drws yng nghlo. Fflachiodd olau i dywyllwch y siop. Ni allai weld dim mwy na silffoedd a'r offer ysgrifenyddol a werthai'r siop. Gallai weld y tu ôl i'r cownter. Nid oedd neb yn cuddio.

‘Dechreuodd Godfrey groesi’r stryd tuag ato. Roedd y glaw yn drymach unwaith eto. Cyn iddo gyrraedd, trodd y dyn a mynd i’r gilfach wydr oedd i siop Hadley’s, un o’r siopau hynny sydd â’r fynedfa wedi ei gosod i mewn o’r stryd lle gallai cwsmeriaid weld y cynnyrch yn y ddwy ffenest cyn mynd i mewn bob ochr iddynt gyda chysgod rhag glaw. Brysiodd Godfrey i ddilyn y person i’r gilfach wydr. Fflachiodd ei dorch yno, ond roedd y dyn wedi mynd. Roedd yn sicr mai dyma lle’r aeth y dyn. Ni allai fod wedi diflannu o’i olwg i lawr y stryd.

Be gythrel?’ meddai Godfrey yn dechrau amau ei bwyll.

Edrychodd ar y llawr sych oedd yn y gilfach. Gallai weld ôl traed gwlyb ei esgidiau maint deg ei hun ond hefyd ôl traed gwlyb arall yn dod i mewn i’r gilfach ac yn mynd yn syth at ddrws gwydr y siop. Beth oedd yn syndod mwy iddo oedd fod yr ôl traed yn parhau ar lawr pren y siop oddi mewn.

‘No wê. Mi faswn wedi ei weld o’n agor y drws. Doedd yna ddim digon o amser,’ meddai. Tynnodd a gwthiodd ar ddolen y drws unwaith eto. Roedd y drws yn soled. ‘Blydi hel,’ meddai wedyn yn dawel a chwythu gwynt o’i fochau. Safodd yn ôl yn y glaw a phendroni a’r diferion yn disgyn o’i het ar ei drwyn. Y benbleth oedd ganddo oedd sut i ddweud wrth y sarjant am yr hyn a welodd. Wedi’r cwbl doedd o ddim am fod yn destun gwawd i’w gyd-heddweison ac yntau prin ddeufis yn y swydd.

Yn ôl i’r swyddfa yr aeth.

‘Gredwch chi ddim be dw i wedi ei weld, Sarj’ meddai wrth y sarjant wrth gerdded trwy’r drws a golwg eithaf cythryblus ar ei wyneb.

‘Pam? Dywed dy hanes hogyn,’ meddai’r sarjant yn ffug dadol.

Teimlai Godfrey fel plentyn saith oed yn dweud hanes ei ddiwrnod wrth ei athro wrth adrodd yr hyn a ddigwyddodd. Disgwyliai i’r hen sarjant chwerthin yn rhadlon rywbyrd yn ystod ei druth, ond ni wnaeth.

‘Oedd o’n gwneud rhywbeth fel hyn?’ holodd a sarjant ar ôl tipyn a gwneud ystum cyffelyb i’r un wnaeth y dyn a’i law.

‘Ia, dene fo. Yn union fel ‘ne,’ meddai Godfrey gyda rhyddhad fod yr hen blismon wedi ei ddeall, ac yn fwy na hynny, wedi ei gredu.

‘Maen nhw’n dweud mai postio llythyr ma fo,’ meddai’r sarjant yn fyfyrgar. ‘Ti’n gweld,’ meddai wedyn ar ôl oedi am ychydig, ‘o be dw i’n ddallt, dipyn cyn yn amser i, mae’n nhw’n dweud bod yna ddyn yn byw mewn fflat uwch ben lle mae siop Hadley’s heddiw. Roedd o’n berchen ar siop lle mae Hadley’s heddiw. ‘Oeddodd y sarjant cyn parhau. ‘Mi grogodd ei hun. Y stori ydy iddo fo sgwennu llythyr cyn iddo fo farw ond phostiodd o mono fo ac mae ei ysbryd o’n dod i lawr weithie at y bocs post i’w bostio fo.’

‘Blydi hel. Chi’n deud mod i wedi gweld ysbryd felly?’

‘Ydw.’

‘Ond does yna ddim bocs post yn fanne,’ meddai Godfrey.

‘Nac oes, ddim rŵan,’ meddai’r sarjant, ‘ond mi oedd yna un yno ers talwm. Dw i’n cofio un yno’n hun.’

‘Blydi hel,’ meddai Godfrey eto. ‘Sgwn i be oedd yn y llythyr ac at bwy oedd o wedi ei anfon o?’

‘Mmm,’ meddai’r sarjant yn feddylgar. ‘Dw i’n siŵr fod y llythyr yma’n rhywle yn y stordy yn y cefn acw. Cer i neud paned ac â i i chwilio amdano fo. Wyddost ti ddim.’ ‘S’dim byd arall gynnwys ni i’w wneud. Dau siwgrwr i mi,’ meddai wrth ddiflannu i’r ystafell gefn.

Roedd paned y sarjant yn aros amdano ac wedi dechrau oeri erbyn iddo gyrraedd yn ôl o’r stordy. ‘Bingo,’ meddai yn chwifio’r llythyr llwydaidd yr olwg yn ei law ac wedyn ei gyflwyno i Godfrey ac eistedd wrth ei baned.

'Damia mae hwn wedi mynd yn oer. Ti'n hoples yn gneud paned, fachgen.' Diflannodd i gyfeiriad y gegin wedyn i ferwi'r tegell eto.

Cliriodd y cwnstabl ifanc ei lwnc a dechrau darllen yn betrus

Pan ddychwelodd, roedd Godfrey yn eistedd wrth y bwrdd gyda'r llythyr yn ei law a'i wyneb yn welw. 'Be sy hogyn?' holodd.

'Hwn,' oedd unig ymateb Godfrey yn cyfeirio at y llythyr.

'Be amdano fo?' holodd y sarjant. 'Darllen o i mi, 's'gen i mo'n sbectol.'

NP Ironmongers
Bodfor St.
Rhyl
Awst 10fed 1923

Annwyl Mr Jones,

Erbyn i chi ddarllen hwn, ni fyddaf mwyach ond credaf mai da fyddai i chi wybod pam. Yr wyf fi wedi mynd yn fethdalwr. Mae'r siop wedi methu. Mae fy hunan barch wedi mynd ac mae'r gwarth yn fy llethu. Hanner can punt oedd yn ddyledus gennych i mi ond bu hynny'n ddigon i'm hanfon dros y dibyn, ac mae'r atafaelwyr am fy nyledion i ar eu ffordd. Gwae chi, a nifer o fusnesau eraill y bum yn aros yn hir wrthynt am arian na ddaeth. Eich £50 oedd yr hoelen olaf yn fy arch, byddaf ynddi yn fuan.

Yn gywir

Nathaniel Parry

'Yr Israel Dafydd,' meddai'r sarjant. 'At bwy oedd o i fod i gael ei anfon?'

'Ellis Jones, Chwarel y Parc, Corwen,' atebodd Godfrey yn ben isel.

'A pwy oedd hwnnw, sgwn i?' meddai'r Sarjant.

'Taid,' meddai Godfrey.

'O,' meddai'r sarjant a barnodd mai doeth fyddai teui.

Heddiw oedd Awst y degfed.

PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Dosbarthu a Golygydd Llundiau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Hysbysebu: Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith Gweplyfr/ Facebook:  Papur Bro Cwmni

Gwefan: Menter Iaith Sir Caerffili.cymru/ 

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.



Ariennir yn
rhamnol gan
Lywodraeth
Cymru